# Arwynebedd arwyneb a chyfaint

| | |
|---|---|
| SARA | O na! |
| IWAN | Dim ots – ‘wnawn ni brynu un newydd sbon!<br><br>Hei! Edrycha ar y rhai prism triongl yna! |
| SARA | Ie cŵl! Ond ma’r siâp yn hollol wahanol – sut ydyn ni’n gwybod os ydyn nhw’n dal yr un faint o ddŵr? |
| IWAN | Paid becso, byddan nhw’n iawn. Jest pryna’r un yma! |
| AL GEBRA | Roedd golwg ddryslyd ar y rhain - fel dau derapin yn dawnsio’r tango mewn twtw. Roedd hi’n amser i mi gamu o’r cysgod.<br><br>Al yw’r enw. Ditectif Preifat.<br><br>Mae’n bryd i chi’ch dau ddweud popeth rydych chi’n gwybod wrtha i. |
| SARA | Mae’r hen danc yn ddau ddeg centimetr o led a phum deg centimetr o hyd. Pan mae’r terapins yn y tanc, mae uchder y dŵr yn ddau ddeg pedwar centimetr. |
| AL GEBRA | Roeddwn i’n gwybod fod cyfaint y dŵr gyda’r terapins ynddo fe yn hafal i arwynebedd sylfaen petryal y tanc wedi’i lusoi gyda’r uchder – dau ddeg pedwar mil centimetr ciwb. |
| SARA | Ac mae Iwan yn dweud y dylwn i gael y tanc prism triongl… |
| IWAN | Sara! |
| AL GEBRA | Roedd gan dop a gwaelod y tanc ddwy ochr hafal o bedwar deg centimetr yr un. Roedd e’n driongl isosgeles ongl-sgwâr, ac arwynebedd hwnna oedd sylfaen y triongl, wedi ei luosi gydag uchder y triongl, wedi ei luosi gyda hanner – wyth can centimetr sgwâr. |


© Copyright 2016

| | |
|---|---|
| AL GERBA | Hmm... Roedd trosedd wedi ei chyflawni yn nhanc y terapins -  ac roedd rhywun yn mynd i dalu'r pris - doedden nhw? |
| IWAN | Plîs! 'Sai moyn mynd i'r carchar! |
| Al GEBRA | Mewn pob tanc prism triongl, i ffeindio cyfaint y dŵr, gan gynnwys y terapins, rydyn ni'n lluosi arwynebedd y pen, sef y trawstoriad, gydag uchder y dŵr rydyn ni'n mesur. Dyna'r gyfraith.<br><br>Nawr cyfaint yr hen danc yw dau ddeg pedwar mil sy'n hafal i arwynebedd y trawstoriad unffurf wedi ei luosi gyda lefel y dŵr ni'n mesur. Hynny yw, mae dau ddeg pedwar mil yn hafal i bedwar deg wedi ei luosi gyda phedwar deg wedi ei luosi gyda hanner, wedi ei luosi gydag uchder y dŵr, gan gynnwys y terapins.<br><br>Felly roedd rhaid bod dau ddeg pedwar mil yn hafal i wyth cant wedi'i luosi gyda'r uchder, sy'n golygu … |
| SARA | … fod rhaid i'r uchder fod yn hafal i ddau ddeg pedwar mil wedi'i rannu gydag wyth cant. Felly mae'n rhaid i'r tanc newydd fod o leia' tri deg centimetr o uchder! |
| AL GEBRA | Roedd rhaid i fi gyfaddef fod y groten wedi llwyddo cracio'r cês - yn ogystal â'r tanc. |
| SARA | Beth am i ti'n helpu ni i fynd â'r tanc newydd yma adref? |
| AL GEBRA | Beth am... beidio?<br><br>Cês wedi cau. |


© Copyright 2016